



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

# Gweithio'n well gyda llai o adnoddau

## Sut mae'r Gwasanaethau Tân ac Achub yn cydweithio i wella'r ffordd y maen nhw'n trosglwyddo'u gwasanaeth



Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru Gyfan yn ymarfer yn y Bala

### Trosolwg

Mae'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub ar draws Cymru yn adeiladu ar eu hanes balch o gydweithio i wella trosglwyddiad eu gwasanaeth, ac yn dod o hyd i gyfleoedd i arbed ar gostau ar yr un pryd.

### Cefndir

Sefydlwyd Pwyllgor Materion Cenedlaethol Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru yn 2012 er mwyn cydweithio'n well, gwella trosglwyddiad gwasanaethau a gwella'r gwasanaeth yn barhaus, a hynny ar gyfer y tri gwasanaeth tân yng Nghymru: Gogledd Cymru, Canolbarth a Gorllewin Cymru a De Cymru. Y nod yw uchafu'r cydweithio i gefnogi gwelliannau yn y ffordd y caiff y gwasanaeth ei drosglwyddo, tra'n pennu arbedion a buddion economaidd. Mae cadw cymunedau Cymru'n ddiogel, a sicrhau bod y gwasanaethau'n medru wynebu'r heriau economaidd presennol, wrth galon y Pwyllgor Materion Cenedlaethol. Mae Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru'n cyflogi 4220 o bobl ac yn gweithredu o dros 140 gorsaf tân ac achub.

#### Canlyniadau

**Pennu canlyniadau sy'n ychwanegu at les Cymru**

#### Tystiolaeth

**Gwneud penderfyniadau gan ddefnyddio gwell gwybodaeth**

#### Cydweithio

**Gweithio gydag eraill ar draws ffiniau**

#### Hir dymor

**Rhoi sylw i'r achos yn hytrach na'r symptomau**

#### Cysylltu

**Canolbwyntio ar y manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol**

#### Tryloywder

**Mesur y gwahaniaeth yr ydych chi'n ei wneud ac adrodd arno**

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

## Pam

Mabwysiadodd Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru ymagwedd newydd o gydweithio wrth daclo'r gostyngiad yn eu cyllidebau a'r cynnydd yng ngalw'r cyhoedd a'r llywodraeth ar eu gwasanaeth, yn unol â chyfarwyddyd y llywodraeth. Roedd hyn hefyd yn adeiladu ar lwyddiant helaeth wrth gydweithio yn y gorffennol.

Roedd y pwysau hwn yn sbardun i dri Awdurdod Tân ac Achub Cymru ganolbwyntio ar drosglwyddiad cynaliadwy hir dymor y Gwasanaeth yng Nghymru, a'r ffordd orau o drosglwyddo gwell gwasanaeth yn wyneb y gostyngiad mewn cyllidebau dros y 5-10 mlynedd nesaf.

Gan gydnabod agenda Llywodraeth Cymru o gydweithio'n well, sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol. Daeth y dirwedd hon dan ddylanwad adroddiadau fel adroddiad Simpson, ' Lleol, Rhanbarthol, Cenedlaethol: Pa wasanaethau yw'r rhai gorau i'w darparu ble?', a oedd yn hybu cydweithio fel ymagwedd effeithiol at drosglwyddo gwasanaethau'r sector cyhoeddus, a'r Rhaglen Lywodraethu.

## Beth wnaethon nhw

Ar ôl penderfynu cydweithio'n well, fe fu'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yn adolygu enghreifftiau o gydweithio a oedd eisoes yn digwydd, gan nodi'r partneriaid, prif nodweddion, amcanion a hyd pob menter ar y cyd. Roedd hwn yn waith mawr, ac yn crisialu manylion pob un o'r mentrau ar y cyd ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol, a nodwyd 224 achos o gydweithio.

Yna, sefydlwyd y Pwyllgor Materion Cenedlaethol fel corff ambarél i roi cyfarwyddyd strategol i'r cydweithio, ac mae wedi pennu chwe maes allweddol ar gyfer cydweithio:

1. Trefniadau rheoli cenedlaethol
2. Gweithrediadau a hydwythedd
3. Caffael cydweithredol cenedlaethol
4. Hyfforddi a datblygu cenedlaethol
5. Swyddogaethau adnoddau dynol
6. Gwasanaethau cyffredin ac arbenigol (gan gynnwys cludiant a TGCh)

Nodwyd canlyniadau ar gyfer pob un o'r meysydd hyn, a defnyddir proses sicrhau ansawdd safonol gyda rheolwr prosiect yn arwain pob maes gwaith.

Caiff y Pwyllgor Materion Cenedlaethol ei drefnu ar ffurf pwyllgor sy'n cynnwys Aelodau Etholedig, Cadeiryddion a Dirprwy Gadeiryddion y tri Awdurdod Tân ac Achub, a'r tri Phrif Swyddog Tân a Dirprwy Brif Swyddog Tân. Sefydlir y pwyllgor fel trefniant gwirfoddol ag iddo strwythur, yn hytrach na sylfaen ddeddfwriaethol. Cyfrifoldeb Cydlynnydd y Rhaglen, Steve Rossiter, a secondiwyd, yw cydlynu'r blaengynllun gwaith o ddydd i ddydd.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Mae'r chwe maes cydweithio allweddol wedi pennu 48 ffrwd gwaith gwahanol, gan gynnwys;

- Uno gwasanaethau Adnoddau Dynol, er enghraifft y gyflogres
- Hyfforddiant cilyddol rhwng y Gwasanaethau
- Prynu a rheoli trafndiaeth fflyd ar y cyd.

### Pa rwystrau oedd yn bodoli

Er mwyn cydweithio'n llwyddiannus, mae angen

sylfaen sydd wedi'i hadeiladu ar ymddiriedaeth a pharch at eich gilydd ac mae sefydlu timau prosiect a gweithgorau o staff o bob un o'r tri gwasanaeth wedi galluogi'r perthnasoedd hyn i ffynnu. Mae cyfarfodydd a chyfathrebu rheolaidd wedi helpu datblygu cyd-ddealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng y gwasanaethau.

“Nawr, dw i'n cael e-byst gan bobl nad ydw i wedi cwrdd â nhw erioed, yn gofyn am fy marn ar nifer o wahanol agweddau fel ymchwil a datblygiad a phrynu cyfarpar, a gyda phwy ddylen nhw siarad. Mae'n dangos bod pobl nawr yn dechrau meddwl ar y cyd”.

Steve Rossiter, Cydlynnydd Prosiect y Pwyllgor Materion Cenedlaethol

Nid yw cydweithio ar draws ardaloedd daearyddol mawr yn hawdd chwaith. Er enghraifft, mae gan y Gwasanaethau systemau TGCh gwahanol, sy'n golygu nad yw siarad â'i gilydd mor hawdd ag y gallai fod. Bydd angen amser i alinio'r systemau hyn ond mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol wedi ymrwymo i wneud hynny. Ac mae graddfa sylweddol y rhaglen waith yn faes arall ble bu'n rhaid i'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol sicrhau cydbwysedd. Mae'n rhaid parhau i drosglwyddo gwasanaethau bob dydd, a hynny gyda 48 darn o waith ar y gweill dan y rhaglen blaen-waith, a gofaldwyd bod ffrydiau gwaith yn cael eu halinio gyda'r hyn sydd eisoes yn digwydd ar y cyd, fel nad oes llawer o ddyblygu.

Yn y tymor hir, fe fydd y gwaith y mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol yn ei wneud yn dod yn greiddiol i'r sefydliadau, fel bod edrych ar ostwng gwastraff, atal dyblygu a defnyddio adnoddau'n effeithiol ar draws Cymru gyfan, yn dod yn rhan o waith beunyddiol y tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru.

### Beth newidiodd

Trwy gydweithio, gwelwyd manteision pendant ac mae sefydlu'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol wedi creu hirhoedledd a chydgyfeiriad ar gyfer ymagwedd y Gwasanaethau Tân ac Achub, trwy gynnig llwyfan i

ffurfioli'r partneriaethau oedd yn bodoli. Mae hyn wedi sicrhau bod ymagwedd gyffredin ar draws Cymru at sicrhau gwell effeithlonrwydd ymhob elfen o'r gwasanaeth, boed yn gontractau cerbydau, cyngor cyfreithiol, caffael ynni neu unrhyw agwedd arall ar eu gweithrediadau.

Fe fydd newidiadau i gontract cerbydau ysgafn y Gwasanaeth Tân ac Achub a'u cyfarpar pwmpio wedi arbed tua £2.5 miliwn yn nhermau osgoi costau, trwy gydweithio ac arbedion maint, dros gyfnod o 5 mlynedd.

Gwelir yr arbedion mewn ffrydiau gwaith eraill hefyd, fel yn yr ystafell reoli, ble mae defnyddio Trosglwyddiad Gwybodaeth Electronig Uniongyrchol wedi rhyddhau dros 3000 o oriau gwaith. Mae'r arbedion wedi codi trwy ddefnyddio systemau electronig mewn ffordd arloesol i drosglwyddo gwybodaeth rhwng gwasanaethau brys, gan gael gwared ar yr angen i ffonio'i gilydd.

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

Mae safoni gweithdrefnau ac ymchwil a datblygiad wedi golygu bod sylfaen ehangach o bobl nawr yn cyfrannu wrth werthuso cyfarpar, offer a throsglwyddiad y gwasanaeth a bod gwell dealltwriaeth gyffredinol o'r gwasanaeth. Gyda hyn, daw ymagwedd gyson ledled Cymru, sy'n cynnig gwell cyfleoedd fel hyfforddiant, prynu a chyfathrebu ar y cyd.

### Beth ddysgon nhw

Trwy'r cydweithio, mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol wedi dysgu bod amynedd, ymddiriedaeth, angerdd a ffocws yn hanfodol wrth wneud i rywbeth weithio.

Mae cyfarwyddyd ac arweiniad uwch reolwyr hefyd yn allweddol i sicrhau bod pethau'n digwydd. Mae uwch reolwyr yr Awdurdodau Tân ac Achub wedi cofleidio'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol ac wedi sylweddoli, er mwyn trosglwyddo Gwasanaeth Tân ac Achub ymhen 10 mlynedd, fod yn rhaid gwneud pethau'n wahanol.

Mae ystyried gwelliannau cynaliadwy hir dymor, a bod yn amyneddgar, yn rhywbeth y mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol eisoes wedi ei ddysgu.

Mae'r Pwyllgor Materion Cenedlaethol hefyd wedi gweithio oherwydd ei ffocws ar ganlyniadau, gyda ffiniau gwaith clir; gan sicrhau bod pobl yn gyfrifol am ffrydiau gwaith gwahanol a chynllunio'r gwasanaeth o bersbectif y defnyddiwr a'r gymuned. Wrth symud ymlaen, mae ymgysylltu â'r gymuned yn faes y mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gweithio arno, i ddarparu mwy o adborth a dealltwriaeth ynghylch anghenion cymunedau Cymru.

Efallai, yn bwysicaf oll, fod y Pwyllgor Materion Cenedlaethol wedi llwyddo i drosglwyddo oherwydd ymddiriedaeth, perthnasoedd proffesiynol a chyfathrebu da. Mae cydlynedd rhaglen y Pwyllgor Materion Cenedlaethol, Steve Rossiter, wedi teithio ledled Cymru, gan roi cyflwyniadau a sicrhau bod pobl yn deall ei ddiben.

### Manylion Cyswllt a Dolenni

**Steve Rossiter**

**Cydlynedd Prosiect y Pwyllgor Materion Cenedlaethol**

[sa-rossiter@southwales-fire.gov.uk](mailto:sa-rossiter@southwales-fire.gov.uk)

**01443 232700**

Y Pwyllgor Materion Cenedlaethol  
Adroddiad Simpson

*"Ar y dechrau, roedd pwyslais ar arbed arian, ac rydyn ni wedi dysgu o brofiad bod arbed arian yn bwysig, ond nid ar draul y broses o drosglwyddo'r gwasanaeth. Trwy gymryd yr amser i gael yr wybodaeth waelodlin gywir, rydyn ni'n gallu canolbwyntio ar ble 'rydyn ni eisiau bod yn y dyfodol a ble mae'r cyfleoedd sy'n ein galluogi i wella'r gwasanaeth a sicrhau arbedion."*

Steve Rossiter,  
Cydlynedd Prosiect y Pwyllgor Materion Cenedlaethol

Dyma un o gyfres o straeon ar ddatblygu cynaliadwy sydd i'w gweld ar wefan Astudiaethau Achos Llywodraeth Cymru <http://wales.gov.uk/topics/sustainabledevelopment/>

